
Adnodd yn seiliedig ar bwnc

# Sbwriel

## Cyfnod Sylfaen




Eco-Schools
Eco-Sgolion

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

15 BYWYD AR Y TIR

14 BYWYD O DAN Y DŴR

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

# Gwybodaeth gefndirol

Mae sbwriel yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf o blant yn ymwybodol ohono o oedran ifanc. Yn anffodus, mae ym mhob man o'u hamgylch, ond mae'n rhywbeth y gallant wneud gwahaniaeth iddo a theimlo wedi'u grymuso wrth wneud hynny. Mae casglu sbwriel yn caniatáu i blant weld canlyniadau eu gweithredoedd yn syth sy'n bwysig i blant bach. Yna, gallant ystyried goblygiadau taflu sbwriel a helpu i ddylanwadu ar eu teulu a ffrindiau, o bosibl.



# Safbwynt hinsawdd

Plastig yw un o'r llygryddion mwyaf hir ei barhad ar y Ddaear. Gall bara am 400 mlynedd neu fwy. Ac yn ystod bob cam o'i oes, hyd yn oed ymhell ar ôl iddo gael ei daflu, mae plastig yn creu allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at gynhesu ein hinsawdd. Wrth iddo bydru yn yr amgylchedd, mae'n creu micro blastigau sy'n llygru'r tir a'r môr. Mae'n bwysig ein bod yn lleihau ein defnydd o blastig, yn enwedig eitemau untro. Wrth i blant ddechrau sylweddoli beth sy'n digwydd i eitemau ar ôl i ni orffen gyda nhw, gyda lwc byddant yn edrych ar eu defnydd eu hunain o eitemau a sut maent yn cael gwared arnynt.

# Beth am gasglu sbwriel!

## Cyfnod Sylfaen

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog plant i edrych ar eu hardal eu hunain a chymryd ychydig o gyfrifoldeb. Drwy gasglu sbwriel gallant deimlo fel eu bod yn gwneud gwahaniaeth. Byddant hefyd yn dysgu rhai ffeithiau diddorol am sbwriel, y bydd rhai ohonynt yn anodd eu credu!

## Deunyddiau sydd eu hangen:

- Offer casglu sbwriel (efallai fod gennych rai yn yr ysgol eisoes neu bydd sefydliadau lleol, megis cynghorau, yn aml yn fodlon benthyg offer)
- Cylchau ar gyfer didoli'r sbwriel



## Cam 1

Cyn y sesiwn, gwiriwch yr ardal lle byddwch yn casglu sbwriel i sicrhau nad oes unrhyw sbwriel a allai fod yn niweidiol a gwnewch yn siŵr fod gennych asesiad risg priodol yn ei le.

Siaradwch â'r plant am bwysigrwydd casglu sbwriel a'r niwed y gall sbwriel ei wneud i'r amgylchedd e.e. perygl i anifeiliaid ac adar a llygru'r eco system. Efallai yr hoffech i'r plant gasglu sbwriel o dir eu hysgol eu hunain neu'r ardal leol yn dibynnu ar eich hysgol

## Cam 2

Ewch â'r plant ar helfa sbwriel o amgylch yr ardal ddewisol. Gan siarad am y pethau y deuant o hyd iddynt ar y ffordd. O ble y credant y mae'r pethau'n dod?



## Cam 3



Ar ôl i chi orffen casglu, gosodwch gylchau ar y llawr a phenderfynwch pa fath o sbwriel ddylai fynd i bob un yn dibynnu ar beth ydych chi wedi'i gasglu e.e. pecynnau creision, papurau melysion, croen ffrwythau, poteli.
Yna gall y plant gyfrif beth sydd ym mhob cylch i ddarganfod pa un y gwnaethant gasglu'r mwyaf ohono.

## Cam 4

Siaradwch â'r plant am yr hyn a allai fod wedi digwydd i'r sbwriel pe na bai wedi cael ei gasglu. Ymhle fyddai wedi diweddu?

# Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

**Maes Dysgu a Phrofiad -** Y Dyniaethau

**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

# Camau nesaf a syniadau eraill

Gallech roi cynnig ar wneud darn o gelf gyda'r sbwriel a gesglir.

Gwefannau Defnyddiol gyda gweithgareddau sbwriel yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar gasglu sbwriel.

https://www.changeworks.org.uk/sites/default/files/Waste-education-resources-for-primary-and-secondary-schools.pdf

https://www.herefordshire.gov.uk/downloads/file/13401/stop_the_drop_primary_school_litter_resource_pack.pdf

http://www.litteraction.org.uk/images/Whole%20School%20Litter%20Campaign%20pack.pdf

https://www.cprenorthants.org.uk/primaryschools/